4.68

# Can

## O HANES PECHOD, YR HWN YDYW COLYN ANGEU.

1 *Cor.* 15. 50. *Pob un sydd yn gwneuthur pechod sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith.* 1 *Ioan* 3. 4.

*Iw chanu ar y mesur a elwir Bryniau'r Werddon.*

1 HOLL lwyth ac eppil Adda, cyd-nes'wch yma'n awr,
Gwrandewch ar gennadwri dros Frenin nef a llawr,
Ac wrth fy ngwaith yn datgan, fy amcan pennaf yw,
Rhoi hanes ar fy nhestyn o elyn dynolryw.

2 Mae gwagedd ac oferedd, mae camwedd dynolryw,
Mae pechod bron aeddfedu, ar fyr i gryman Duw;
Pan ddelo y cynhauaf, 'fydd lle i daflu'r bai,
Rhaid medi'r ffrwyth yn ddiau o'r hâd fuwyd yn ei hau.

3 Fe dd'wed Hosea'r Prophwyd fod rhwng yr Arglwydd gŵyn
A holl drigolion daear, er cyd y mae'n ymddwyn,
Am ddyled mawr sydd arnom, pwy ddichon rifo'r swm,
Pan êl y cwyn i dreial, fe fydd y cyfri'n drwm.

4 Mae pechod yn teyrnasu fel brenhin mawr ei nerth,
Mae'n tywys ei holl ddeiliaid i gerdded llwybrau serth;
Teyrnas y tywyllwch yw enw ei deyrnas ef,
Lle aml o drigolion, lle pell oddiwrth y nef.

5 Pechod sydd yn gwasgu, mawr iawn yw pwys y gol,
O rhedwn tua'r noddfa, mae'r dialydd ar ein hol;
Rhedwn am ein bywyd, yn ddiwyd, cymrwn boen,
I glwyfau bendigedig y croeshoeliedig OEN.

6 Fe wnaeth i'n cyndad Adda i fwytta ffrwyth y pren,
Ac Ahab dreisio Naboth, a dwyn ei winllan wen,
Fe wnaeth i bobl Israel o ddirgel ysbryd dig,
I 'laru ar y manna, a dewis bwytta cig.

7 Chwech can mil o rifedi, 'roedd hynny'n gyfri' maith,
Wrth fyn'd o'r Aipht i Ganaan, am dychan ar eu taith;
Gwnaeth pechod oll hwy'n feirw, a'r seigiau yn eu ceg,
Nid aeth o'r holl rifedi ond dau i Ganaan deg.

*Sal.* 49, 1. *a* 63, 9. 1 *Ioan* 1, 5. *Preg.* 1, 1. *Mat.* 10, 30. *Dat.* 16, 15. *Gal.* 6, 7, 1. *Hos.* 6, 1. *Esay* 1, 18. *Mic.* 6, 2. *Jer.* 25, 31. *Rhuf.* 2, 15. *Sal.* 13, 7. *Phil.* 2, 13. *Sal.* 119. 155. *Ezra* 9, 6. *Gal.* 6. 7. *Heb.* 3, 3. 1 *Tim.* 4, 1.

8 Pechod ydyw'r gelyn sy'n lladd wrth rym ei sa'th,
Y mwrddrwr m[illegible] ofnadwy, na chlywyd am ei fath;
Fe ddaeth â thân [illegible]r Sodom, fe ddaeth a diluw glas,
Fe ddaeth â newyn eirad ar dref Samaria fras.

9 Mae'n esgor ar farwolaeth, mae'n c'ledu calon dyn,
Mae'n serio pob cydwybod, sydd wrtho oll yn nglun;
Mae'n magu blin ryfeloedd, mae'n tynnu dial Duw,
Fe aeth a Chorah a Dathan i uffern boeth yn fyw.

10 Aeth Haman gynt i'r grogpren, a Herod rhwng y llau,
Annuwiol frenin Babel yn anifail ca'dd ei droi,
Gwraig Lot yn golofn halen, mae'n ddigon gwir y swn,
A Jesebel heb ammeu yn ddarnau rhwng y cwn.

11 Fe wnaeth i Judas fradwr i werthu'n Prynwr drud,
Demas i ad'el prophes yn ddiles am y byd,
A Senacherib gablu trwy y llythyrau gwawd,
A'r brodyr werthu Joseph, a Chain i fwrddro'i frawd.

12 Fe wnaeth i Ismael watwor, ac El'mas gablu'r gair,
Ac Acan fawr ei ddichell drachwantu'r fantell aur;
Fe wnaeth i wŷr Bethsemes, er cymmaint oedd eu parch,
I gael eu taro'n feirw am edrych yn yr Arch.

13 Fe wnaeth i'r hen Sodomiaid, rhai diriaid drwg eu sawr,
I gael eu taro'n ddeillion yn fychain ac yn fawr,
Tra bu angylion grymmus yn tywys Lot i ma's,
Cyn tywallt tân a brwmstan o'r nef ar Sodom fras.

14 Fe wnaeth i blant i watwor y Prophwyd Eliseus,
Daeth barn ofnadwy greulon echryslon ar eu traws,
Dystrywiwyd dau a deugain heb ad'el un yn fyw,
Gan eirth a ddaeth o'r goedwig yn ol gorchymmyn Duw.

15 Fe wnaeth i Saul fel *rebel* i fyn'd i ryfel târ,
Fe wnaeth i Nabal ddigio, ac Amnon dreisio ei chwa'r,
A'r hen Iuddewon digred a gododd yn gau dyst,
A Philat euog farnu ein Harglwydd Iesu Grist.

*Iago* 4, 1. *Act*. 12. *Dan*. 4, 15. *Num*. 16, 2, 7. *Luc*. 16, 27. 1 *Cor*. 10, 3, 8. 1 *Tim*. 4, 2. *Iago* 4, 1. *Num*. 16. 1 *Cor*. 4. *Mat*. 24, 7. *Dan*. 6, 15. *Mat*. 26, 14. *Gen*. 32. *Gen*. 19. 11. 2 *Bren*. 6. 18. *Act*. 13. 11. 2 *Bren*. 2. 24. *Gen*. 19, 21. *a* 25, 6. *a* 34, 8. *Mat*. 27, 18. *Luc* 23, 2. *Ecsod*. 30, 20. *Gen*. 11, 23. *Heb*. 12, 16. *Judas* 6. *Gal*. 5, 19. *Diar*. 6. 17. *Mat*. 5. 13. *Col*. 2. 10. *Act*. 8. 18. 2 *Bren*. 5. 16. *Mat*. 10. 8. *a* 25. 16. *a* 5. 22. *Job* 5. 6, 7. *Sal*. 40. 1.

cc 3569 0361

16 Fe wnaeth i feibion Israel i ddawnsio o ddeutu'r llo,
Fe wnaeth i Cam anrhyddgar i watwor ei dad No';
Fe wnaeth i Esau werthu ei enedigaeth-fraint,
Fe dynnodd yr angylion o'r nef, preswylfa'r saint.

17 Mae hanes tair o ferched, cewch glywed enwau rhai'n,
Gan Ioan yr apostol mewn geiriau duwiol *plain;*
Chwant y cnawd a'r llygad, a balchder bywyd cam,
Tair chwa'r o'r un naturiaeth, o'r un dàd ac o'r fam.

18 Daeth melldith ar y ddaear a phob creadur byw,
Fe 'sbeiliodd ddyn o'i harddwch a llewyrch delw Duw,
Trallodau a blinderau, gofidiau o bob math,
Pob gradd o eppil Adda sydd ganddo ei gyd yn gaeth.

19 Fe wnaeth i Simon swynwr mewn rhyfyg fyn'd y'mlae'n,
I geisio cael am arian wir ddawn yr Yspryd Glân;
Fe wnaeth i'r gwas anfuddiol i guddio'r dalent deg,
Tra bu'r gwas duwiol diwyd yn elwa'r pump yn ddeg.

20 Nid oes na chur na gofid, nac adfyd o un rhyw,
Ar wyneb daiar isod, nad ffrwythau pechod yw;
Llwmder, ing, a thrallod, a phob rhyw nychdod hir,
A newyn, a rhyfeloedd, ar foroedd ac ar dir.

21 Mae pechod yn ei natur yn lladd fel gwenwyn mân,
Mae'n difa fel y dyfroedd, mae'n llosgi fel y tân,
Mae'n chwythu fel y gwyntoedd, mae'n brathu fel y ddraig,
Fel sarph yn chwydu'r afon, i geisio difa'r wraig.

22 I wadu'r adgyfodiad fe wnaeth y Saduseaid,
Fe lanwodd o genfigen galonau'r Phariseaid;
Fe wnaeth i Jeroboam i golli grym ei law,
Fe wnaeth Phelix grynu wrth gofio'r farn a ddaw.

23 Fe ddaeth â phla o lyffaint i 'stafell Phar'o fawr,
A chenllysg yn gafodydd, cornwydydd drwg eu sawr,
Daeth haint ar anifeiliaid, locusitaid dros y wlad,
Tywyllwch dros y lluoedd, a'r dyfroedd oll yn wa'd.

24 Mae wedi tywyllu 'r deall, mae wedi llygru'r cof,
Mae wedi gwylltu'r gangen fu ar y cynta'n ddof;
Rhaid nerth goruwch-naturiol anfeidrol oddi fry,
Cyn newid byth ein natur, a'i gwneuthur fel y bu.

*Iago* 5. 1. *Math.* 26. 6, *Judas* 23. *Dat.* 12. 6. *Mat.* 12. 24.
1 *Bren.* 13. 4. *Salm* 78. 45. *Ecsod.* 9. 29. *Ezec.* 2. 12.
1 *Thes.* 1. 5. *Ephes.* 4. 23. *Salm* 104. 24. *Luc* 13. 2. *Math.* 23.
37. *Dat.* 6. 2. *a* 19. 8. *Zech.* 1. 7, 8. *a* 6. 7. *Diar.* 25. 2

25 Mae 'r ddaear bron a blino i ddala llwyth mor drwm,
A phechod meibion Adda, sy'n pwyso fel y plwm;
Fe losgodd dre' Caersalem yn ulw hyd y llawr,
Fe ddarniodd dŵr Siloam, fe ddinystriwyd Ninif' fawr.

26 Ei hŷd oedd deunaw milldir, ac un-ar-ddeg o led,
A'i chwmpas oedd yn drugain, medd doethion cywrain cred,
Lle hyfryd mewn gwastadedd, heb yno fryn na phant,
Ac ar ei chaerau glandeg o dwrau bymtheg cant.

27 Y mae gan Grist ei hunan, medd Ioan, bedwar march,
Y rhai'n fe gair eu gweled yn cerdded wrth ei arch,
March gwyn yw enw'r cyntaf, march coch yw enw'r ail,
March du yw enw'r trydydd, pedwarydd glas fel dail.

28 March gwyn yw'r efengyl dirion, sy'n llawn newyddion doeth,
Mae addewidion grymmus yn gorphwys yn ei chroeth;
Saint Paul sydd yn ei galw yn groyw Gallu Duw,
Er iechydwriaeth hollol i'r holl gredinion ryw.

29 March coch yw'r rhyfel gwaedlyd, ei ergyd sydd yn drwm,
Pan ddêl i ddial pechod a'i ddyrnod fel y plwm;
Fe gerdd gan ladd a difa plant Adda îs y nen,
Nid oes ond braich Jehofah yn bena' all ddala ei ben.

30 March du yw'r newyn marwol, pwy all ei wrthol droi,
Na chilio oddi wrth y llwybr, na gwneuthur iddo ffoi?
Fe ddifa lawer miloedd, ar foroedd, bryn, a bro,
Pan delo Crist i'w ollwng yn rhydd o dan y clo.

31 March glas yw'r angau creulon, ni arbed wan na chry'
Pan gaffo ei orchymmyn o lŷs y nefoedd fry.
Ni ddiangc gradd nac oedran, tra buan yw ei dro.
Na'r ifangc hardd, na'r hen ddyn, na'r plentyn aned ddoe.

2 *Pedr* 1, 4. *Heb*. 11, 17. *Rhuf*. 1, 16. 1 *Cor*. 18. *Jer*. 4, 19, 20. *Sal*. 42, 7. *Ezec*. 5, 16. *Job* 30, 23. *Heb*. 9, 27. *Joel* 2, 7, 9. *Mat*. 25, 5.

DAVID WILLIAMS, *Llandeilo fâch, Morganwg*.

DOLGELLEU, ARGRAPHWYD GAN R. JONES.